Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

31/01/25

Annwyl Rieni,

**Cystadleuaeth Pêl Rwyd Sir Ddinbych-** Buodd y tîm pêl rwyd gymysg Blwyddyn 6 yn brysur yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl rwyd yn Ysgol Crist y Gair, y Rhyl ar ddechrau'r wythnos. Roedd cystadlu brwd yno a mwynhaodd y tîm y profiad o gystadlu. Pob lwc i'r tîm Pêl rwyd Blwyddyn 5 a 6 sy'n cystadlu yn nhwrnamaint yr Urdd wythnos nesaf (4/2/25) yn Ysgol Glan Clwyd.

**Gweithdy 'Paid Cyffwrdd Dweud'**- Cafodd disgyblion ym mlynyddoedd 1,2,3,4,5,6 sesiwn hynod bwysig 'Paid Cyffwrdd, Dweud' prynhawn ddoe yn neuadd yr ysgol gyda'r tiwtor Kazia Cannon. Sesiwn hynod bwysig ar sgiliau bywyd ac addysg bersonol a chymdeithasol.

**Sioe 'Matilda' (Ysgol Brynhyfryd)-** Ar brynhawn dydd Mercher nesaf, (Chwefror 5ed) fe fydd disgyblion 5 a 6 yn cael mwynhau perfformiad o'r sioe gerdd 'Matilda'- sef cynhyrchiad Ysgol Brynhyfryd. Bydd y plant yn cerdded amser cinio gyda staff i'r ysgol uwchradd ac yn dychwelyd i Ysgol Pen Barras cyn 3.15yp. Pob lwc i'n cyn-ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn y sioe.

**Lluniau TEMPEST**- I'r rhai hynny sydd heb archebu'r lluniau ar lein eto, mae gennych hyd at ddydd Mercher, 5ed o Chwefror i fanteisio ar bost rhad ac am ddim i'r ysgol.

**PC Llinos Ford**- Fe fydd PC Llinos Ford yn ymweld â'r ysgol ar fore dydd Iau nesaf, Chwefror 6ed- i gynnal sesiynau / gweithdai gydag Unedau. E-Ddiogelwch fydd thema'r Adran Iau a 'Rôl yr Heddlu' fydd y thema efo'r Uned dan 7.

**Urdd- Cofrestru i gystadlu**
Cofiwch fod Cofrestru i Gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2025 bellach ar agor! Gwych fyddai gweld gymaint o gystadleuwyr yn yr Eisteddfod eleni o Ysgol Pen Barras a phosib!
Rwyf wedi atodi'r Rhestr Testunau fan hyn i chi.
<https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/eisteddfod-yr-urdd-dur-mor-2025/rhestr-testunau-2025/darnau-gosod-2025/> Dyddiad cau cofrestru i gystadlu ar gyfer cystadlaethau llwyfan a maes-
Dydd Llun, Chwefror 17eg, 2025.

Yn gywir,

Dyfan Phillips
PENNAETH
YSGOL PEN BARRAS

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*31/01/25*

*Dear Parents,*

***Denbighshire Netball Competition*** *– The Year 6 mixed netball team were busy competing in a netball competition at Christ the Word School, Rhyl at the start of the week. There was a high standard or competing and the team enjoyed the experience. Good luck to the Year 5 and 6 netball team competing in the Urdd tournament next week (4/2/25) at Ysgol Glan Clwyd.*

***'Don't Touch, Tell' Workshop*** *– Pupils in Years 1, 2, 3, 4, 5, and 6 had a very important 'Don't Touch, Tell' session yesterday afternoon in the school hall with tutor Kazia Cannon. An important session on life skills and personal and social education.*

***'Matilda' Show (Ysgol Brynhyfryd)*** *– Next Wednesday afternoon (February 5th), pupils in Years 5 and 6 will enjoy a performance of the musical 'Matilda' – a production by Ysgol Brynhyfryd. The children will walk with staff to the secondary school at lunchtime and will return to Ysgol Pen Barras before 3:15pm.*
*Good luck to our former pupils taking part in the show.*

***TEMPEST Photos*** *– For those who have not yet ordered photos online, you have until Wednesday, February 5th, to take advantage of the free postage to the school.*

***PC Llinos Ford*** *– PC Llinos Ford will visit the school on Thursday morning, February 6th, to conduct sessions/workshops with the Units. E-Safety will be the theme for the Junior classes, and 'The Role of the Police' will be the theme for the Under 7 Unit.*

***Urdd – Register to Compete***
*Remember, registration for the 2025 Urdd Eisteddfod is now open! It would be fantastic to see so many competitors from Ysgol Pen Barras take part in this year's Eisteddfod! Please follow this link for this year's Urdd syllabus.* <https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/eisteddfod-yr-urdd-dur-mor-2025/rhestr-testunau-2025/darnau-gosod-2025/>
Closing date for online registration for individual stage competitions is Monday, February 17th, 2025.

Kind regards,

Dyfan Phillips
HEAD TEACHER
YSGOL PEN BARRAS